Cofnodion Cyfarfod Arferol o **GYNGOR TREF RHUTHUN** gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstay, Rhuthun ar nos Lun, 28 Hydref 2013 am 7:00 p.m.

PRESENNOL: Cyng. Rosie Hughes-Moseley (**Maer – Cadeirydd**)
Cyngr. Stephen Beach, James Bryan, Bob Costain, Elisabeth Culshaw, June Derry, Sioned Foulkes, Ken Hawkins, Menna Jones, Simeon Jones, Robert Owen Ellis, Anne Roberts, Katy Morgan Williams, Geraint Woolford ac Emrys Wynne.

108. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Nid oedd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

109. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Derbyniwyd datganiadau o ddiddordeb mewn eitemau ar yr Agenda fel a ganlyn:
Datganodd Cyng. Ken Hawkins, fel Ceidwad Eglwys Sant Pedr, ddiddordeb yn yr eitem ganlynol a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth a'r penderfyniad a ddilynodd.
Cof. Rhif 121 – Cloc Eglwys Sant Pedr

110. MR DARREN MILLAR, A.C.

Cafwyd cyflwyniad gan Mr Darren Millar gyfeiriodd at Adroddiad Glasdir gomisiynwyd gan Gyngor Sir Ddinbych a'r ffaith bod rhagor o waith ei angen ar amddiffynfeydd llifogydd. Cyfeiriodd at GIG a'r cyfleusterau sydd ar gael yn Ysbyty Cymunedol Rhuthun - mae angen i'r cyhoedd wybod am hyn ac fe wnaiff e-bostio llythyr i ni yn fuan..
Trafododd ysgolion lleol a'r adolygiad a gyhoeddwyd gan Gyngor Sir Ddinbych. Mae wedi trafod y mater gyda'r holl ysgolion affeithir a bydd cyfarfod o Gabinet Cyngor Sir Ddinbych yn ystyried y cynigion yfory. Cymerodd gwestiynau gan aelodau ar: gwelâu gwag yn Ysbyty Cymunedol Rhuthun i leihau'r pwysau ar Ysbyty Glan Clwyd (dywedodd bod "problem cyfathrebu" o fewn y Bwrdd Iechyd lleol); lleihau nifer o lefydd dros ben yn arwain at gau ysgolion - cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw hyn; Comisiwn Silk - pwerau i'r Cynulliad Cymreig i godi cyllid ychwanegol – disgwyl am ymateb o Sant Steffan - mae'r pedwar prif barti yn dymuno gweld Silk Rhan 1 yn cael ei weithredu; gwasanaethau gofal gwell mewn cydweithrediad a GIG a Chyngor Sir Ddinbych; toriadau cyllid arfaethedig yn rhannol oherwydd lleihad yn y boblogaeth. Diolchwyd iddo gan y Maer.

111. ADRODDIAD Y MAER

Dywedodd y Maer ei bod wedi mynychu'r canlynol ers y cyfarfod diwethaf:

I'w gwblhau.

112. ADRODDIADAU AELODAU

Cyng. Stephen Beach	Cyfarfod gyda Peter Lea, Priffyrdd, Cyngor Sir Ddinbych; Corff Llywodraethol Ysgol Stryd y Rhos, Hyfforddiant Cynllun Datblygu Lleol yn Ninbych
Cyng. James Bryan	Gŵyl Rhuthun a Chyfarfod Blynyddol, Pwyllgor Rheolaeth Canolfan Awelon, Hyfforddiant Cynllun Datblygu Lleol yn Ninbych
Cyng. June Derry	Hyfforddiant Cynllun Datblygu Lleol yn Ninbych
Cyng. Sioned Foulkes	Ffrindiau Cae Ddôl, Cyfarfod Blynyddol Menter Iaith, Hyfforddiant Cynllun Datblygu Lleol yn Ninbych
Cyng. Ken Hawkins	Cyfarfod gyda Peter Lea, Priffyrdd, Cyngor Sir Ddinbych, Agor 'Ystafell Hafina' yn Llyfrgell Rhuthun, Cloc Eglwys Sant Pedr.
Cyng. Simeon Jones	Gŵyl Rhuthun.
Cyng. Robert Owen Ellis	Banc Bwyd Rhuthun x 5, Pwyllgor Rheolaeth Canolfan Awelon, Agor 'Ystafell Hafina' yn Llyfrgell Rhuthun.

Cyng. Anne Roberts	Cyfarfod gyda Peter Lea, Priffyrdd, Cyngor Sir Ddinbych, Hyfforddiant Cynllun Datblygu Lleol yn Ninbych, Banc Bwyd Rhuthun.
Cyng. Katy Morgan Williams	Cymdeithas Preswylwyr Glasdir x 2.
Cyng. Geraint Woolford	Cyfarfod gyda Peter Lea, Priffyrdd, Cyngor Sir Ddinbych
Cyng. Emrys Wynne	Cyfarfod Blynyddol Menter Iaith, Cymdeithas Cynghorau Trefi Gogledd Cymru ym Mwcle.

113. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

***PENDERFYNWYD**: derbyn a mabwysiadu fel cywir cofnodion y Cyfarfod Arferol gynhaliwyd ar 23 Medi 2013.*

114. MATERION YN CODI

Cof. Rhif 90 - CYMDEITHAS GYMUNEDOL LLANFWROG - ARDDANGOSFA TAN GWYLLT

Gan fod Cyngor Tref Rhuthun yn cefnogi'r digwyddiad yn ariannol, datganwyd siom fod y posteri yn hyrwyddo'r digwyddiad ddim yn ddwyieithog. Buddiolwyr yn y dyfodol i'w hatgoffa am bolisi dwyieithog y Cyngor Tref.

115. PWYLLGOR AMWYNDERAU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Hydref 20013.
***PENDERFYNWYD**: derbyn y cofnodion.*

116. PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Hydref 20013.
***PENDERFYNWYD**: derbyn y cofnodion.*

117. Y GOFEB – CODAU QR

Cyflwynodd Clerc y Dref e-bost oddi wrth Rhodri Clark, History Points, sydd yn dymuno gosod cod bar QR ar y Gofeb leol.
***PENDERFYNWYD**: cefnogi'r cais.*

118. CREIRIAU'R DREF

Rhoddwyd manylion i'r aelodau am arddangosfa i'w chynnal yn Llyfrgell Rhuthun o Ddydd Gwener hyd at ddiwedd mis Tachwedd.

119. GWEFAN DINAS, TREF A CHYNGHORAU CYMUNED

Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr gan Gyngor Sir Ddinbych parthed ariannu datblygiad gwefan.
***PENDERFYNWYD**: i drafod ymhellach yng nghyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu.*

120. LLWYBR CELF GYMUNEDOL RHUTHUN SEDDI NEWYDD AR SGWÂR SANT PEDR

Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr (ynghyd a lluniau) oddi wrth Mr Brian W. Williams sydd gan bryder parthed y meinciau newydd ar Sgwâr Sant Pedr.
***PENDERFYNWYD**: ateb drwy gyfeirio at yr arddangosfeydd yn y Ganolfan Grefft a Llyfrgell Rhuthun rai blynyddoedd yn ôl a bod ymateb positif wedi ei dderbyn gan breswylwyr ac ymwelwyr.*

121. CLOC EGLWYS SANT PEDR

Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr gan Smith of Derby Ltd parthed y cloc uchod yn ymgorffori amcan bris am osod symudiad mecanwaith electroneg newydd ar ffigwr o £1,952.00 + T.A.W.
***PENDERFYNWYD**: bod y mater yn cael ei ohirio am 12 mis.*

122. SUL COFFA - 10 TACHWEDD 2013

Derbyniodd yr aelodau fanylion am y trefniadau ar gyfer Sul Coffa eleni.

123. RHYBUDD O DDIWEDD YR ARCHWILIAD – BLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2013

Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr gan UHY Hacker Young, Archwilwyr Allanol, yn cadarnhau bod yr archwiliad wedi ei gwblhau yn foddhaol.

***PENDERFYNWYD**: derbyn y llythyr.*

124. DATGANIAD ARIANNOL

Cyflwynodd Clerc y Dref, fel Swyddog Ariannol Cyfrifol, ei Ddatganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 30ain Medi 2013.

***PENDERFYNWYD**: derbyn a mabwysiadu'r Datganiad Ariannol.*

125. CYFRIFON I'W TALU

***PENDERFYNWYD**: cymeradwyo talu'r eitemau canlynol:*

A.B.	Canda Copying Ltd	Rhentu Ffotogopiwr	*	129.14
469	Sandra Williams	Cyfieithu	*	90.00
470	Cyllid y Wlad	Tretha ac Yswiriant Gwladol		177.47
471	Dafydd Williams	Arian – stampiau ayyb		25.00
472	UHY Hacker Young	Archwiliad Allanol	*	720.00
473	I. T. Williams Co Ltd	Hurio lori – tynnu ymaith y planwyr a'r baneri.	*	447.00
474	Fineline Printing & Stationery	Papur (Sul Coffa)	*	25.55
475	J. & C. Brimble	Dyfrio – 23 Gor – 18 Medi		2,436.20
476	Smith of Derby Ltd	Galwad allan parth nam		180.00
477	Cyngor Sir Ddinbych	Hurio 'Cherry Picker' & dreifar – Hydref	*	444.00
478	Cyng. Emrys Wynne	Amnewid am y siec isod sydd yn awr wedi dyddio.		20.00
339	*Cyngr. Emrys Wynne – dyddiad 21.1.13*	*Tal am hawlfraint llun*		*(20.00)*
479	Glascoed Timber	Gwasanaeth Biniau Baw Cŵn - 6 Mai - 21 Hyd	*	624.00
480	Ground Control	Torri Glaswellt – Hydref 2013	*	444.52
481	Canda Copying Ltd	Copïau ychwanegol - du a gwyn.	*	36.08
482	Canda Copying Ltd	Copïau ychwanegol - lliw	*	19.57
483	Cyng. Emrys Wynne	Pyst i faneri		30.38
484	Cyng. Emrys Wynne	Teithio – CCTaChGC Treffynnon a Bwcle		28.80
485	Dafydd Williams	Cyflog / Costau		488.14

(Mae'r eitemau a nodir gyda * yn cynnwys T.A.W. y gellir ei adennill o £496.64)

<u>RHAN DAU</u>

126. CYFLOG CLERC Y DREF

Rhoddwyd manylion am gyflog Clerc y Dref.

***PENDERFYNWYD**: derbyn y manylion*

127. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cadarnhau dyddiad y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref fel Nos Lun, 25 Tachwedd 2013.